# Bwletin Menter Môn

mentermon.com
post@mentermon.com

Croeso i'n bwletin newydd. Dyma ble byddwn ni'n dod a'r newyddion diweddaraf i chi am Menter Môn, ein prosiectau a'n gwaith ar draws Ynys Môn, Gwynedd a thu hwnt. Cysylltwch gyda ni am ragor o wybodaeth amdanom ni neu unrhyw un o'n prosiectau. Mae ein gwaith yn syrthio i mewn i dair prif thema:

**Cymuned** **Economi** **Ynni**

## Arddangos Gweithgareddau Menter Môn Yn Sioe Môn

Roedd deuddydd Sioe Môn yn gyfle unwaith eto i ni fel Cwmni i ddod ynghyd i ddathlu bwrlwm ein prosiectau a rhannu hyn gyda'r cyhoedd yn y sioe. Eleni ar y bore dydd Mercher cafwyd cyfle i ddathlu 10 mlynedd o lwyddiant Fforwm Iaith Ynys Môn gyda'r babell dan ei sang gyda phobl yn mwynhau'r sgwrs banel a'r brecwast wrth gwrs. Cafwyd sgyrsiau difyr am y Gymraeg o wahanol ogwydd boed hynny yn gymunedol gyda phobl ifanc, defnydd teuluoedd o'r Gymraeg neu ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ym myd addysg.




Ers ei sefydlu ar y cyd rhwng Menter Môn a Chyngor Sir Ynys Môn yn 2014 mae'r Fforwm wedi tyfu a datblygu ac erbyn hyn yn gwthio i herio a chefnogi ein gilydd gyda dros 30 aelod yn eistedd o amgylch y bwrdd.



**Darllenwch fwy am Fforwm Iaith Ynys Môn yma.**

## Grymuso Gwynedd: Llwyddiant Gwynedd

Dros y misoedd diwethaf, mae wedi bod yn wych dilyn hanesion grwpiau ar draws Wynedd sydd wedi derbyn cyllid Grymuso Gwynedd yn mynd ati i wireddu prosiectau sy'n dod â chymunedau ynghyd ac yn codi eu capasati datblygu.



Trefnodd Menter Iaith Bangor daith yn ddiweddar i Gymdeithas Affrica Gogledd Cymru ymweld â Nant Gwrtheyrn. Roedd yn gyfle i weld yr olygfa, cael gwybod mwy o hanes a straeon y Nant, ac wrth hynny diwylliant Cymreig Gwynedd. Mae hefyd wedi bod yn haf prysur i'r criw yn Hwb Croesor, pawb yn estyn llaw i drwsio, paentio a thacluso yn ogystal â derbyn help llaw gan gwmnïau lleol.

**Darllenwch am brosiectau Grymuso Gwynedd yma.**



# Cigydd Yn Gwella Gweithrediadau Gyda Technoleg SMART

Mae J A Thomas yn gigydd teuluol traddodiadol wedi'i lleoli yn Llangefni ac yn cael ei redeg gan y partneriaid, David Roberts a Christopher Taylor. Maen nhw'n darparu cig lleol Cymreig i'r cyhoedd a llawer o gaffis a bwytai'r ynys.

Yn ddiweddar, derbyniwyd grant gan yr Hwb Menter gyda'r nod o wneud y mwyaf o dechnoleg i wella perfformiad y busnes. Gan weithio gydag arbenigwyr Trefi SMART, mae'r cigydd wedi dod o hyd i ateb i'w helpu i wella diogelwch bwyd, effeithlonrwydd y cwmni a chydymffurfiaeth reoleiddiol, drwy osod synwyryddion lleithder a thymheredd yn oergelloedd y siop. Mae'r synwyryddion yn anfon rhybuddion at berchnogion y busnes os bydd angen ymateb sydyn.

**Darganfyddwch mwy am y defnydd o dechnoleg SMART yma.**

## Larder Cymru Yn Dathlu Cynnyrch Cymreig ym Mirmingham

Wedi'i gyflenwi gan Menter Môn, cafwyd Larder Cymru – sy'n gweithio gyda chynghorau Wrecsam, Sir y Fflint, Ynys Môn, Gwynedd, Caerdydd a Chaerffili fel rhan o gynllun peilot Bwyd i Ysgolion Cymru – gwmni dau o hoelion wyth y diwydiant, sef Harlech Foodservice a Castell Howell Llanelli, yn Sioe Fwyd Ysgol LACA ym Mirmingham dros yr Haf.


Mae prosiect Larder Cymru yn credu y bydd datblygu cadwyni cyflenwi rhanbarthol o fudd i awdurdodau lleol a'r sector preifat, gyda Sioe Fwyd Ysgol LACA yn ddyddiad allweddol yn y calendr.




Roedd yn lwyfan pwysig ar gyfer y cwmnïau anhygoel o bob maint sydd gennym ni'n cynhyrchu bwyd a diod o ansawdd uchel yng Nghymru, ac yn gyfle i hyrwyddo eu hachos ymhlith gwneuthurwyr penderfyniadau mawr y sector addysg.

Mae prynu cynnyrch Cymreig yn neges rydyn ni wedi'i hyrwyddo ers sawl blwyddyn bellach, neges sy'n bwysicach nag erioed, am resymau amgylcheddol ac ariannol o ystyried yr heriau sy'n wynebu'r blaned a pherchnogion busnes, yng Nghymru a thu hwnt.

**Dysgwch fwy am Larder Cymru ar eu gwefan yma.**



# Croeso Ym Môn I Gyhoeddiad Llywodraeth Ar Ynni Adnewyddadwy

Mae un o ddatblygwyr tyrbinau prosiect ynni llanw Morlais, HydroWing, wedi derbyn 10MW yn ychwanegol fel rhan o arwerthiant AR6 ('Allocation Round' 6) ynni adnewyddadwy mwyaf diweddar Llywodraeth y DU.

Morlais yw prosiect ynni llif llanw Menter Môn. Mae'n rheoli ardal o 35Km$^2$ o wely'r môr ger Ynys Cybi, Ynys Môn. Mae gan y cynllun y potensial i gynhyrchu hyd at 240MW o drydan carbon isel glân.

Mae'r cyhoeddiad yn hwb i uchelgais Ynys Môn i arwain y sector ynni llanw ac yn arwyddocaol o ran denu buddsoddiad newydd i'r ardal. Mae Menter Môn yn gweithio gyda darpar ddatblygwyr technoleg a chyflenwyr lleol i sicrhau'r budd mwyaf posib i'r ardal yn sgil Morlais.

**Darllenwch y stori lawn yma.**

## Cyflawni Cynllun Amgylcheddol Prosiect Ynni Llanw Môn

Mae'r Prosiect Ymchwil i Nodweddion Morol (MCRP) sy'n cael ei arwain gan Menter Môn, wedi cyhoeddi bod Cyfoedd Naturiol Cymru wedi cadarnhau bod gofynion Cynllun Monitro a Lliniaru Amgylcheddol (EMMP) Morlais wedi eu cwblhau yn llwyddiannus.

Mae'n brosiect sy'n sicrhau diogelwch mamaliaid morol, adar y môr, a physgod mudol drwy gydol y broses o osod dyfeisiau llanw yn ardal Morlais – a'r gobaith yw y bydd y cynllun yn gweithredu fel templed ar gyfer prosiectau ynni morol yn y dyfodol.

Mae hyn yn newyddion gwych i prosiect Morlais yma ar Ynys Môn. Trwy'r gwaith pwysig hwn, rydyn ni wedi gallu amlinellu sut i ddefnyddio'r dyfeisiau ynni llanw yn ddiogel, ochr yn ochr â thechnoleg monitro a lliniaru effeithiol sydd wedi'u dylunio er mwyn diogelu bywyd gwyllt y môr.

**Darganfyddwch fwy am brosiect MCRP yma.**

